

Blwyddyn Newydd - Cynlluniau Newydd



Ym Mhontypridd mae'r gwaith wedi dechrau ar safle yr hen Precinct fydd yn ei drawsnewid yn swyddfeydd modern ac ardal siopa ac hamdden. Bydd y tri adeilad yn cynnwys llyfrgell newydd, canolfan ffitrwydd a phencadlys Trafnidiaeth i Gymru, y corff fydd yn gyfrifol am weithredu cynllun trafndiaeth Metro yr ardal.



Ar ffin orllewinol Taf Elái mae cynlluniau i adeiladu 5000 o dai ar ardal hen waith glo brig Llanilid ger Llanharan. Yn barod mae caniatâd yno am 1850 o dai a bydd angen ystyried mynediad i'r M4 ar gyfer datblygiad mor fawr.

Mae newidiadau mawr hefyd yn digwydd ar yr A4119 rhwng Llantrisant a Chaerdydd. Dros y misoedd diwethaf mae pump mynediad newydd wedi eu creu ar gyfer adeiladu yn yr ardal i'r gogledd o'r Tylloed yr holl ffordd i'r Creigiau. Mae cynlluniau am filoedd o dai newydd yn yr ardal yma ond prin iawn yw'r gwybodaeth am ysgolion, ffyrdd, trafndiaeth a chyfleusterau ar gyfer y trigolion newydd.



Y Fari Lwyd yn noson Clwb y Dwrllyn ym Mhentyrch

Pencampwriaeth Athletau Cymru

Cystadlodd Alex ac Anna Halliday o Ysgol Gyfun Garth Olwg ym mhencampwriaethau rhanbarthol Cymru dan do yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr. Enillodd Alex fedal aur yn y 200m gan ddod yn gyntaf yn Ne Cymru ac yn gyntaf yn y gystadleuaeth yn gyfan gwbl gydag amser o 23.77 eiliad. Daeth Anna yn seithfed yng ngrŵp merched dan 13 oed yn ras 200m ar gyfer De Cymru. Rhedodd Anna ei hamser gorau erioed sef 30.16 eiliad. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ar eu llwyddiant.



Pleidleisiwch i Gwynfor

Mae cân gan Gwynfor Dafydd, Tonyrefail, wedi ei ddewis yn un o wyth cân yng nghystadleuaeth Cân i Gymru S4C ar 1 Mawrth yn Theatr Bryn Terfel, Pontio, Bangor. Mae geiriau'r gân 'Ton' gan Gwynfor Dafydd a'r gerddoriaeth gan Michael Phillips.



Un o Donyrefail yw Gwynfor, sydd bellach yn astudio Ieithoedd Tramor ym Mhrifysgol Caergrawnt, ac mae Michael yn athro cerdd sy'n byw ym Malvern, sir Caerwrangon er ei fod yn dod o Abertawe'n wreiddiol. Doedd y ddau ddim yn adnabod ei gilydd tan iddyn nhw fynd ati i gyfansoddi'r gân ar gyfer y gystadleuaeth hon. Roedd Michael eisoes wedi ysgrifennu'r alaw, ac yn chwilio am rywun i ysgrifennu'r geiriau. Cysylltodd gyda Gwynfor wedi iddo'i weld ar eitem ar raglen Heno ar S4C am feirdd oedd yn cymryd rhan yn Her 100 Cerdd. Mae Gwynfor wedi ennill Cadair Eisteddfod yr Urdd ddwywaith.



Cyngerdd Nadolig Côr Godre'r Garth a Chôr y Cwm yn Tabernacl, Efail Isaf. (Tudalen 6)

Ysgol Evan James

Diolch yn fawr i Aaron Evans a Gareth Roberts am gydweithio gyda dosbarth Pwyll a Rhiannon i greu ffilm ardderchog am ryfeddodau Pontypridd. Mwynheuodd plant y dosbarth eu taith o amgylch Pontypridd yn arsylwi ar adeiladau ac ardaloedd arbennig ein tref gan orffen gyda 'donut' o Greggs.

Cafodd dosbarth Culhwch ac Olwen ac Ysbaddaden wers fuddiol iawn yn dysgu sut i achub bywyd ac ymateb mewn argyfwng.

Perfformiodd tîm nofio'r ysgol yn wych ym Mhenybont mewn cystadleuaeth Gala nofio'r Urdd. Daeth Millie Shapland a Twm Pike yn 3ydd.

Aeth criw o blant i ganu yng nghartre'r henoed, Tŷ Gwynno. Diolch am y croeso cynnes. Mwynheuodd pawb wrando ar ganeuon y Nadolig.

Fe aeth dosbarth Branwen o amgylch y dref yn tynnu lluniau o'u hoff lefydd. Fe gawsant brynhawn llawn hwyl wrth gynnal Oriel Ffotograffiaeth a gwahodd teulu a ffrindiau i'r ysgol i fwynhau paned.

Llongyfarchiadau mawr i Heledd O'Brien am ennill Cystadleuaeth Carden Nadolig y Cynulliad.

Cafodd dosbarthiadau Tom Jones, Cerys Matthews ac Elin Fflur amser gwych yng nghanolfan arddio Woodland Walk, Efail Isaf yn gweld Siôn Corn. Diolch am ein hanrhegion hyfryd! Fe ddysgom lawer am ddiogelwch tan pan ddaeth y frigâd dân i'r ysgol i siarad.

Aeth yr adran iau i wyllo sioe Culhwch ac Olwen yn y Miwni. Cafwyd llawer o hwyl a sbri, a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

Perfformiodd pob dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen Sioe Nadolig yn Neuadd yr ysgol, a chynhaliodd yr adran iau Gwasanaeth Carolau Nadolig yn Eglwys Sant Catherine. Diolch i ddisgyblion a staff yr ysgol am greu naws y Nadolig, ac am y canu bendigedig.



Aaron Evans yn creu ffilm



Ymweld â Siôn Corn



Oriel Dosbarth Branwen




Heledd O'Brien ennillydd Cystadleuaeth Carden Nadolig y Cynulliad

Ysgol Creigiau

Chwaraeon Amlgyfrwng Gemau Caerdydd

Nôl ym mis Rhagfyr, cynrychiolodd Taliesin a Warren, Blwyddyn 5, yr ysgol mewn cystadleuaeth Chwaraeon

Amlgyfrwng Gemau Caerdydd a gynhaliwyd yn Nghanolfan Chwaraeon Talybont. Dychwelon nhw i'r ysgol gyda dwy fedal aur ac un efydd. Cawsant ddiwrnod gwych.



Asiantaeth Safonau Bwyd



Ar ein diwrnod cyntaf yn ôl wedi gwyliau'r Nadolig, daeth Heledd, Rhianna a Gethin o'r Asiantaeth Safonau Bwyd atom. Cafwyd cyflwyniad bywiog iawn am ddiogelwch bwyd, glendid ac iechyd. Y disgyblion oedd "Cadets" y llong ofod ac fe wnaethant helpu'r Capten a'i griw i drwsio eu cyfrifiadur wrth fwydo'r wybodaeth a ddysgon nhw nôl i grombil y cyfrifiadur. Roedd y cyflwyniadau'n wych a'n llawn gwybodaeth defnyddiol.

"Beatboxing" gyda Dean Yhnell



Daeth Dean Yhnell atom i rannu ei dalent arbennig gyda ni. "Beatboxer" yw Dean ac mae'n cystadlu'n genedlaethol. Dysgodd y disgyblion am yr holl seiniau mae'n medru eu creu â'i lais a chwansant gyfle i ddysgu sut i greu seiniau arbennig a chreu bddwgdegau sain. Cafodd rhai disgyblion gyfle i ddefnyddio'r meicroffôn a recordio eu seiniau ar "loop pedal". Buon nhw hefyd yn rapio hwiangerddi a chaneuon i'r seiniau "beatboxing". Cafwyd llawer o hwyl!

Wythnos Fentergarwch

Yn ystod yr wythnos yn dechrau Ionawr 22ain, bu holl ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan mewn Wythnos Fentergarwch. Defnyddiodd y disgyblion eu sgiliau Rhifedd, Llythrennedd a Digidol i gynhyrchu cynnyrch i'w rhieni / gofalwyr allu eu prynu. Nod y prosiect oedd i ddatblygu medrau mentergarwch a chreadigol y disgyblion gan obeithio gwneud ychydig o elw. Gwahoddwyd y rhieni / gwarchodwyr i'r ysgol ar y dydd Iau i weld y gwaith a gynhyrchwyd gan y disgyblion, ac i siarad gyda'u plant am eu gwaith a chael cyfle i brynu'r gwaith. Bu'r fenter yn un lwyddiannus dros ben.

Ysgol Creigiau (Parhad o dudalen 2)

Comisiynydd Plant Cymru

Ymwelodd dau aelod o'n Cyngor Ysgol ag Ysgol Treganna i gwrdd â Chomisiynydd Plant Cymru. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o holl ysgolion clwstwr Ysgol Gyfun Plasmawr i gymryd rhan mewn gweithdai ar hawliau plant. Cawsant gyfle hefyd i ofyn i Sally Holland am ei rôl fel Comisiynydd Plant Cymru. Mwynheuodd Mali ac Evie y profiad yn fawr.



Plygain yn Eglwys Penttyrch

Nos Iau, Ionawr 11eg, aeth parti o ferched i ganu yn y Plygain yn Eglwys Penttyrch. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r cyfle a'r profiad pob blwyddyn o gael cymryd rhan yn y traddodiad. Fe ganodd y parti bach yn swynol dros ben.

PC Nick Evans

Cafwyd ymweliad arall yn ddiweddar gan Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol, PC Nick Evans. Y tro yma, daeth i gyflwyno gwers ar 'ymddygiad gwrth-gymdeithasol' i ddisgyblion Dosbarth 5. Roedd y disgyblion yn cytuno bod y wers wedi bod yn hynod o ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth defnyddiol. Yn ystod y tymor bydd PC Nick a PC Jane yn ymweld â phob dosbarth i gyflwyno gwers ar amrywiaeth o themâu.



Seren yr X FACTOR yn ein Hysgol Ni!

Roedd cyffro mawr yn yr ysgol prynhawn Llun, Ionawr 22ain pan gerddodd Lloyd Macey ei hun i mewn i neuadd yr ysgol. Fe siaradodd gyda'r disgyblion am ei brofiadau anhygoel yn ystod ei daith ar raglen yr X Factor. Pwysleisiodd hefyd pa mor browd yr oedd e o fod yn Gymro Cymraeg ac am y ffordd y mae'r Gymraeg wedi, ac yn parhau i chwarae rôl bwysig iawn yn ei fywyd a'i yrfa.



Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Twrnaint Rygbi

Bu dau dîm o'r ysgol yn cystadlu yn Nhwrnaint Rygbi'r Urdd yn ddiweddar. Llwyddodd tîm Blwyddyn 5 i ennill dwy o'u gemau ac fe enillodd tîm Blwyddyn 6 dair o'u gemau. Da iawn chi fechgyn!

Hwyl fawr

Hwyl fawr a phob lwc i Mr Joe Hutchings sydd wedi bod yn gweithio fel myfyriwr yn nosbarth Mrs Morrish. Dymuniadau gorau iddo yn ei ysgol nesaf a diolch iddo am ei holl waith caled.

Croeso

Croeso i ddau ddisgybl newydd sef Jac a Tia Griffiths. Mae Jac ym Mlwyddyn 6 a Tia ym Mlwyddyn 3. Gobeithio y bydd y ddau yn hapus iawn yn ein plith.

Gymnasteg

Llongyfarchiadau mawr i Olivia Williams am ddod yn ail yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd yn ddiweddar.



Sêr y sgrin fach

Efallai i chi weld rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 ar Newyddion S4C ac ar 'Ffeil' yn ddiweddar. Roeddent yn trafod hanes William Price. Siaradodd pawb yn wêch – da iawn chi!

Siarter Iaith

Ddiwedd tymor diwethaf, fe gawsom Ddiwrnod Cymru Cŵl, pan roedd cyfle i bawb fwynhau diwrnod llawn hwyl a sbri drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen gymryd rhan mewn gweithdai sgiliau syrcau ac fe ddaeth y band ifanc o Ysgol Plasmawr – Wigwam i gynnal gig ar gyfer disgyblion CA2. Cynhaliwyd bore coffi i rieni a chystadleuaeth "Bake Off" ar y thema Cymru



ar gyfer y disgyblion – roedd y teisennau'n werth eu gweld. Yn osgystal, fe alwodd



Sbarc a Seren i weld pawb yn eu dosbarthiadau. Ar ddiwrnod ola'r tymor hefyd cynhaliwyd disgo Cymraeg yn y neuadd ac roedd cyfle i ddisgyblion CA2 ddawnsio i draciau'r wythnos y tymor cyfan! Roedd pawb wedi cael amser wrth eu boddau!

Cystadleuaeth creu addurn Nadolig

Cafwyd ymateb ardderchog i'r gystadleuaeth creu addurn Nadolig allan o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth. Does dim amheuaeth bod yr addurniadau'n edrych yn wêch ar goed Nadolig



Diwrnod Ionawr Iachus

Ar ôl bwyta gormod dros gyfnod y Nadolig, roedd cyfle i bawb gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddathlu Diwrnod Ionawr Iachus yr Urdd. Cafodd pob disgybl sesiwn cadw'n heini ac yn y prynhawn fe gerddodd pawb filltir o gwmpas tir yr ysgol.



Cluniaduron newydd

Diolch i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am y cluniaduron newydd sydd wedi cyrraedd pob dosbarth yn yr ysgol. Mae'r llun yn dangos y Criw Digidol cyffrous iawn yn eu dosbarthu.





Keith Rowlands yn cael ei anrhegu gan Wendy Reynolds am ei gyfnod yn Drysorydd Tabernacl, Efail Isaf (Tudalen 6)



BoisTashwedd Clwb Rygbi Pentyrch (tudalen 11)



Te Prynhawn Macmillan
Tonysguboriau



Parc Porth y De Llantrisant ar
ei newydd wedd



Sam a Huw yn noson Clwb Rygbi Pentyrch

IONAWR CHWEFROR MAWRTH

2018

 Garth Olwg
OFFERING LEARNING & LIVING

loga	loga trwy gyfrwng y Gymraeg	Pob Nos Lun 6-7yh
Iwcs	Ukulele trwy gyfrwng y Gymraeg	Pob Nos Lun 7-9yh
WOMAN OF FLOWERS Cyd-Gynhyrchiad Theatr Pena Taliesin Arts Centre	Nos Sadwrn 10/02/18 £14/£12	
Cyngerdd Dydd Gwyl Dewi Tenovus	Nos Iau 01/03/18 £5	
Y TAD Theatr Genedlaethol Cymru	Nos Wener 16/03/18 £12 / £10	



Ruth Davies yng nghyfarfod Merched y Wawr (tudalen 10)



Y Parry Isaacs mewn noson arbennig yn Acapela, Pentyrch, i
godu arian tuag at Eisteddfod Caerdydd

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebwyr y mis: Eleri a Gwilym Huws

Llwybr Newydd

Fel y rhagwelwyd yn rhifyn Rhagfyr o *Tafod Elái*, ychydig ddyddiau cyn y Nadolig fe agorwyd y llwybr troed a beicio newydd rhwng Heol y Bont-faen, Tonysguboriau a Llantrisant. Mae'r llwybr, sy'n rhedeg yn gyfochrog â ffordd yr A473 a heibio i gefn Parc Manwerthu Bro Morgannwg, wedi'i godi'n bennaf ar wely Cangen Maesyrhau o'r hen rwydwaith rheilffyrdd. Dros fisoedd yr haf diwethaf codwyd cledrau'r rheilffordd a chlirio'r llystyfiant, ac yn yr hydref gosodwyd llwybr 'asphalt' tri metr o led sy'n ei wneud yn addas hefyd ar gyfer cadeiriau olwyn a phramiau. Milltir yn unig yw hyd y llwybr o gyfeiriad Tonysguboriau cyn iddo ddod i ben yn ddirybudd ar bwys Westfield Court. Ond, yn wahanol i'r Lôn Goed yn Eifionydd, pan fydd y gwaith o godi arwyddion wedi'i gwblhau fe welir fod y llwybr yn arwain 'at lan a thref' gan ei fod yn rhan o'r rhwydwaith llwybrau rhwng Pontyclun a Phontypridd. Yr 'unig ofid im' ar hyn o bryd yw bod y llwybr ar hyd gwely'r hen reilffordd yn dod i ben cyn cyrredd cartref Dafydd a Lowri Roberts. Byddai codi caffi bach yng ngwaelod gardd Maesyrhau wedi bod yn fan delfrydol i dorri syched wrth gerdded o Pontyclun i Efail Isaf a thu hwnt!

Canu Carolau

Daeth criw o blant a rhieni yr ardal i ganu carolau yng nghanolfan siopa Tonysguboriau ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Codwyd arian i elusennau lleol yn ogystal, a rhoi cyfle i siopwyr glywed ambell garol Gymraeg.

Cricedwr Ifanc

Llongyfarchiadau i Alffi Edwards, Groesfaen – disgybl ym Mlwyddyn 5 yn Ysgol Gymraeg Llantrisant – ar gael ei ddewis eleni eto i gynrychioli Morgannwg Ganol yn y sgwad criced dan 10 oed. Pob hwyl i ti, Alffi!

Croeso Brwd

Dros yr wythnosau diwethaf, cwblhawyd y gwaith o adnewyddu Parc Chwarae Porth y De ar bwys Canolfan Hamdden Llantrisant. Buddsoddodd Cyngor Rhondda Cynon Taf swm sylweddol o arian ar dirlunio'r safle a darparu offer newydd addas. Pan ymwelodd gohebydd *Tafod Elái* â'r parc ar fore heulog ddechrau Ionawr, ymhlith y rhai oedd

yno'n mwynhau'r adnoddau newydd roedd Llew Jones (18 mis oed) o Gaerdydd yng nghwmni ei dad-cu, sef Mike Edwards, Southgate, Llantrisant. Roedd Mike yn llawn canmoliaeth o'r gwelliannau i'r safle, sydd bellach yn llawer iawn mwy deniadol ac yn fwy diogel i'r plant lleiaf. (Llun tudalen 4)

Croesawu Wyres Newydd

Llongyfarchiadau i Bethan a Mick Guilfoyle, Groes-faen, ar enedigaeth wyres. Mae Nel Beca yn ferch i Daniel a Sioned, sy'n byw yn yr Eglwys Newydd, ac yn chwaer fach i Erin Beth. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

Gwella'r Gwasanaeth Bysiau 122

Dros y misoedd diwethaf cafwyd newyddion trist am grebachu neu ddileu'r gwasanaeth bysiau'n llwyr o rai pentrefi yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Yn groes i'r duedd hon, rhoddwyd croeso brwd i'r gwelliannau i Wasanaeth 122 rhwng Tonypandy a Chaerdydd. Y gwelliant pwysicaf yw bod nifer y teithiau bob ffordd yn codi o 3 i 4 bob awr yn ystod yr oriau brig. Gall y gwelliant fod o fantais i drigolion lleol sy'n gweithio'n agos at lwybr y gwasanaeth, neu sydd ag angen ymweld ag Ysbyty Brenhinol Llantrisant. Ond mae gan drigolion Cefn-yr-hendy, Meisgyn, reswm da dros groesawu gwelliant arall i'r gwasanaeth gan bod dau o'r pedwar bws bellach yn mynd o amgylch Cefn-yr-hendy gyda phum arhosfan newydd wedi eu codi, gan gynnwys un ar bwys Ysgol Gymraeg Llantrisant. Does ond gobeithio y bydd y datblygiadau hyn yn hwyluso'r teithio i nifer o drigolion lleol, yn ogystal ag ysgafnhau'r traffig a'r problemau parcio sy'n gwaethygu o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig ym Mhontyclun a Thonysguboriau.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau calonog i Elin Haf, merch Geraint a Sian Davies, Portreeve Close, Llantrisant, ar ei dyweddiad â Nick Willetts, meddyg teulu sy'n huanu o Landaf. Actores yw Elin, a thros gyfnod y Nadolig bu'n actio rhan Olwen yn y pantomeim *Culhwch ac Olwen*. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau.

Newyddion 9

Mewn eitem ar Newyddion 9 S4C yn ddiweddar, hyfryd oedd clywed ymateb cadarnhaol rhai o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Llantrisant a dau o fasnachwyr y Ganolfan Grefftau i'r cyhoeddiad bod Cadw wedi cytuno i roi statws arbennig i'r cerflun o Dr William Price ar Sgwâr Llantrisant. Rhaid diolch yn bennaf am y datblygiad hwn i ymdrechion diflino'r hanesydd lleol, Dean Powell, a braf oedd gwrandao arno'n egluro i'w ddiddordeb ym mywyd Dr William Price gael ei

ysgogi pan oedd yn aelod o gôr Ysgol Llantrisant ar achlysur dadorchuddio'r cerflun ym mis Mai 1982. Siaradodd yn frwd iawn am y degawd a dreuliodd yn ymchwilio ar gyfer y cofiant a gyhoeddwyd ganddo i Dr Price, ac am y bwriad i agor Canolfan Dreftadaeth yn hen Neuadd y Dref lle adroddir hanes y cymeriad unigryw hwn, ynghyd â hanes yr ardal.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lowri a Chris Leeke, Hensol, ar enedigaeth eu hail ferch, Ffion Lois, ar 2 Ionawr yn pwyso 8 pwys 11 owns. Mae Beca Haf wedi dotio at ei chwaer fach! Pob dymuniad da i'r teulu.

Merched y Wawr, Cangen Tonysguboriau

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd, daeth y bardd Cyril Jones i'n difyrru. Roedd wedi dewis teitl hynod briodol ar gyfer ei sgwrs, sef 'Menywod fy Machgendod'. Diddorol oedd gwrandao ar Cyril yn trafod y dylanwad gafodd y ddwy Miss Jones – yr HMI a Mari Berllan Pitar – ar ddyddiau ei blentynod yng Ngheredigion. Dywedodd iddo fod yn ffodus o gael ei fagu mewn cymuned wledig lle roedd cymaint o amrywiaeth o bobl o wahanol oedran a chefnidir yn byw. Talodd deyrnged i'r menywod hynny a wnaeth yn siŵr, yn eu ffyrdd unigryw eu hunain, ei fod yn cael cychwyn da i'w daith addysgiadol. Cawsom hanesion difyr am Mari Berllan Pitar a oedd, yn ôl llên gwerin yr ardal, yn meddu ar y gallu i 'ribo' (sef 'rheibio' – tybed faint o'r darllenwyr sy'n gyfarwydd â'r gair hwnnw?). Mae cerdd am Mari'n ymddangos yn y llyfr darluniadol *Hud Afon Arth* a gynhyrchwyd gan Cyril ynghyd â'r artist Philip Huckin. Braf hefyd oedd croesawu Jen Dafis – Swyddog Datblygu newydd Merched y Wawr yn y de-ddwyrain – i'r cyfarfod.

Te Prynhawn Macmillan

Roedd y te prynhawn a drefnwyd gan Grŵp Codi Arian Macmillan Pontyclun a'r Cylch ddydd Sadwrn 20 Ionawr yn llwyddiant mawr. Gwerthwyd y 40 tocyn yn gyflym, ac roedd pawb ddaeth i Lanelay Hall yn edrych ymlaen at gael profiad arbennig. Yn sicr, ni chawsant eu siomi. Roedd yr holl ddanteithion yn flasus dros ben, gydag amrywiaeth o fwydydd sawrus a melys i blesio pob chwaeth! Codwyd dros £700, ac mae aelodau'r grŵp yn ddolchgar dros ben am gefnogaeth rheolwyr a staff Lanelay Hall a'r rhai ddaeth yno i gefnogi'r digwyddiad yn y gwesty hyfryd hwn. (Llun tudalen 4)

Colofnydd y mis nesaf: Awen Mai Eboest: Awen.Evans@assembly.wales Ffôn: 01443 228204

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Clwb Rhedeg y Pentre'

Sefydlwyd Clwb Rhedeg i ferched yn y pentref dechrau'r flwyddyn gan Sarah Powell. Croeso i bawb ymgynnull ger Tafarn y Carpenters am 9 o'r gloch bob bore Sadwrn. Bydd un daith fer ac un daith hirach, felly bydd croeso i bawb ymuno. Mae'n debyg fod 62 o redwyr brwd wedi troi lan ar y Sadwrn cyntaf.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Varion Gapper a'r teulu a hithau wedi colli ei llysfab Carl yn ddiweddar.

Ffair y Pentref

Cynhaliwyd ffair Nadolig llwyddiannus iawn yn Neuad y Pentref ddydd Sadwrn, Rhagfyr 16eg. Bu Côr Plant Ysgol Gynradd Garth Olwg ynghyd a Chôr yr Einion yn diddanu'r stondinwyr a'r prynwyr yn ystod y bore. Cymaint oedd y brwdfrydedd ymhlith y stondinwyr fel y bu'n rhaid agor Canolfan y Tabernacl i gartrefu amryw o stondinau ychwanegol. Cafwyd amrywiaeth dda o stondinau yn y Ffair, yn grefftai amrywiol, ffrwythau a llysiau, cigyddion, peintio wynebau ac ymweliad gan y dyn ei hun - Siôn Corn.

Y TABERNACL

Cyfarwyddwyr Newydd y Tabernacl

Estynnwn ein dymuniadau da i Rhiannon Llewelyn, Siân Llewelyn Barnes, Arwyn Lloyd Jones ac Eluned Davies-Scott a ddewiswyd i wasanaethu ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr am dymor o dair blynedd.

Seren y Tabernacl

Llongyfarchiadau i Geraint Barnes, un o blant yr Ysgol Sul yn y Tabernacl a serennodd ar y teledu ar raglen Noson Lawen nos Sadwrn y 23ain o Ragfyr. Recordiwyd y rhaglen yn Llanfair Caereinion ac mi roedd Geraint yn wir seren fach ar y rhaglen.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf i deulu D.J. Davies, Tonyrefail a fu farw yn ddiweddar. Daeth yn aelod selog yn Y Tabernacl ar ôl i Gapel y Ton gau y drysau.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau gwresog i Lowri a Chris Leeke ar enedigaeth merch fach, Ffion Lois, chwaer fach i Beca Haf.

Bryisia Wella

Dymunwn wellhad buan i Twm

Llywelyn, un o blant yr ysgol Sul. Mab bach Ceri Anwen a Lloyd Britton yw Twm ac yn wŷr i Allan James. Treuliodd Twm rai dyddiau yn yr ysbyty ar ôl torri ei goes yn yr ysgol. Bryisia wella Twm bach.

Dathlu'r Nadolig yn y Tabernacl

Yn ôl yr arfer bu'r Nadolig yn gyfnod prysur yn y Tabernacl. Cafwyd perfformiadau diddorol a graenus gan blant yr Ysgol Sul ac aelodau Teulu Twm, fore Sul 17eg o Ragfyr ac fe ymwelodd Siôn Corn â'r plant yn Neuadd y Pentref ar ôl yr Oedfa. Gyda'r nos cawsom gampwaith o gyngerdd safonol gan Gôr Godre'r Garth a Chôr y Cwm. Cyflwynwyd elw'r noson i'r Bwthyn yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Ddydd Sadwrn, Rhagfyr 23ain cynhaliwyd Bore Coffi yng Nghanolfan y Tabernacl. Cafwyd cefnogaeth wych gan yr aelodau a'r pentrefwyr. Cyflwynwyd elw'r bore, ymron i £200, i'r pum elusen leol mae'r eglwys yn ei gefnogi. Cariwyd thema'r pum elusen ymlaen i Oedfa Noswyl y Nadolig pan gynnwyd pum kannwyll gan y bobl ifanc i gynrychioli'r elusennau.

Anrhegu Keith

Mi ymddeolodd Keith o'i swydd fel Trysorydd y Capel ddiweddd mis Rhagfyr. Bu Keith yn drysorydd am ryw ddeng mlynedd a hynny ar adeg digon prysur yn hanes yr eglwys, pan adnewyddwyd y festri a'r capel. Bu'n rhaid i Keith drafod arian sylweddol cyn i'r gwaith gael ei gwblhau. Fore Sul, Ionawr 21ain cyflwynwyd cloc hardd i Keith gan Wendy Reynolds, cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr fel cydnabyddiaeth am ei waith trwyadl a chydwytbodol yn ystod y deng mlynedd. Canmolodd Wendy waith manwl, gofalus a thrylwyr Keith gan sôn am yr oriau diddiweddd a roddodd i waith yr eglwys. Diolch o galon Keith am dy ymroddiad a'th waith caled. Olynwyd Keith yw Arwyn Lloyd Jones. Dymunwn yn dda iddo yntau yn ei swydd newydd.

Merched y Tabernacl

Yn eu cyfarfod yng Nghanolfan y Tabernacl cyn y Nadolig bu aelodau Merched y Tabernacl yn brysur yn trefnu rhaglen ar gyfer 2018. Penderfynwyd cyflwyno siec o £155 i elusen Wallich sy'n gweithio gyda'r digartref yng Nghaerdydd.

Ein cyfarfod cyntaf eleni oedd ymweliad â'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Ar ôl cael paned a sgwrs tywyswyd ni i lyfrgell yr Amgueddfa ym mhen ucha'r adeilad.



Ysbryd Ystrad Fflur

Yn dilyn llwyddiant y gyfrol 'Hud Afon Arth' am ardal Pennant yng Ngheredigion mae cyfrol newydd ar y gweill sydd yn canolbwyntio ar hanes a thirwedd Ystrad Fflur. Yr awduron yw Cyril Jones, brodor o Pennant enillodd goron yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberystwyth yn 1992, Philip Huckin artist o Rydychen sydd wedi symud i Gymru a dysgu'r Gymraeg a'r Athro David Austin daw ac arbenigedd fel archeolegydd tirweddol y Canol Oesoedd.

Gwelir ôl y berthynas arbennig hwn rhwng hanesydd, artist a bardd yn y gwaith, ill tri yn ysbrydoli'r llall i roi cyd-destun hanesyddol, gweledol a llenyddol i'r gyfrol Ysbryd Ystrad Fflur.

Disgwylir cyhoeddi'r llyfr cyn diwedd y flwyddyn a gellir archebu y Gyfrol clawr caled am £30 neu y Gyfrol llawn gaeedig am £100 drwy Siop Rhiannon, Tregaron. post@rhiannon.co.uk

Roedd y llyfrgellydd wedi arddangos casgliad o hen lyfrau taith gan rai o enwogion a oedd wedi ymweld â Chymru ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ar ôl sgwrs fer fe gawsom gyfle i fodio drwy'r cyfrolau a darllen y sylwadau a nodwyd gan y teithwyr yma. Aeth pawb ati i chwilio beth a nodwyd am ardaloedd eu mebyd. Un llyfr a ddenodd fy sylw i oedd llyfryn ar ffurf dyddiadur a ysgrifennwyd â llaw, a'r llaw ysgrifen honno mor gain. Roedd y lluniau hefyd o gestyll ac eglwysi yn hynod o gelfydd. Treuliwyd orig fach hyfryd yn y llyfrgell a diolch i Ann Saer a Marian Wynne am drefnu'r ymweliad.

Ddydd Mawrth, Chwefror 6ed byddwn yn mynychu cyngerdd gan Sinfonia Cymru yn Neuadd Dewi Sant gan gyfarfod am ginio yn Yr Hen Lyfrgell am 11:30 y bore.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Chwefror

Chwefror 4ydd Oedfa Gymun yng ngofal aelodau Tonteg a Phentre'r Eglwys

Chwefror 11eg Emlyn Davies

Chwefror 18fed Sul i'r Teulu

Chwefror 25ain Y Parch Gethin Rhys

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) :

Mis Chwefror 2018:

4 – Oedfa dan ofal y Parchedig. Dafydd Andrew Jones

11 – Oedfa gymun dan ofal Delwyn Sion

18 – Oedfa dan ofal y Parchedig. Lona Roberts

25 – Oedfa dan ofal y Parchedig. Hywel Wyn Richards

Mis Mawrth 2018:

4 – Gwasanaeth Gwyl Ddewi yr Ysgol Sul

11 – Oedfa gymun dan ofal y Parchg. Dyfrig Rees

18 – Oedfa Ardal dan ofal aelodau Llandaf

25 – Oedfa dan ofal y Delwyn Sion

ooooOOOOoooo

Mae'n fis Chwefror unwaith yn rhagor, ail fis y flwyddyn newydd, a thrydydd mis y gaeaf meteorolegol i ni yn hemisffer y gogledd!

Ychwanegwyd Chwefror, fel mis, at y calendar Rhufeinig, gyda'r enw *Februarius*, tua 713 CC, gan Numa Pompilius, ac Ionawr a Chwefror oedd y ddau fis olaf i'w hychwanegu at y calendar ganddynt - 'roeddent cyn hynny yn ystyried y gaeaf yn gyfnod "ddi-fis".

Mae enw'r mis bach yn deillio o'r gair Lladin *februum*, a hynny yn golygu "puredigaeth", yn dilyn defod puredigaeth *Februa* a gynhaliwyd ar Chwefror y 15fed (amser lleuad lawn) yn hen galendar lleuadol y Rhufeiniaid.

Y "mis bach" yn ôl nifer ei ddyddiau, ond, fel y gwyddom, un sydd ag un dydd yn fwy pob blwyddyn naid. (Er i'r Chwefror Rhufeinig yn ei dro fod a 23, 24 a 27 diwrnod iddo.)

A chan mai 28 diwrnod sydd i'r mis mewn blwyddyn gyffredin, Chwefror ydi'r unig fis o'r flwyddyn pryd mae'n bosibl na welir y lleuad yn llawn. Digwyddodd hynny ddiwethaf yn 1999, a dilynir hynny eto yn Chwefror eleni!

Yn ôl y calendar, ar Chwefror y 1af, bydd yr haul yn codi am 7:40 a.m. ac yn machlud am 4:50 p.m. Ar yr 28ain o Chwefror bydd yr haul yn codi am 6:49 a.m. ac yn machludo am 5:38 p.m., cynnydd o awr a thri-deg-naw munud yn hyd y dydd rhwng dechrau a diwedd y mis.

Arwydd sicr bod tymor newydd ar ein gwarthaf, a bod trwmgwsg y gaeaf ar ddod i ben.

Da o beth medde chi...ia, ond...mae 'na ambell i beth yn mynd i'r gwrthwyneb, ac yn mynd yn llai (ac nid son am hyd y nos yr ydwi yn y fan hyn!) ... oherwydd cyn hynny, erbyn diwedd Ionawr, byddwn wedi ein hysgwyd a'n cynddeiriogi gan un o newidiadau mwyaf y ganrif hon hyd yma.

Mae'n debyg mai'r gair Eingl-Sacsonaidd am fis Chwefror oedd "Sol-monath", oedd yn golygu "mis y gacen",

a hynny yn deillio o'r arferiad o gynnig cacennau i'r Duwiau yn ystod y mis.

Ond nid cacennau ond bisgedi sydd yn cythruddo'r boblogaeth...

Er ein bod bellach, ers diwedd 2016, wedi cyfarwyddo a'n "Toblerone" siocled o'r Swisdir yn newid ei siâp, a bod bellach fwy o ofod rhwng pob triongl yn y bar, (llai o bwysau felly, er i faint y pecyn ei hun aros yr un peth!), fe ddatgelwyd yn ddiweddar gan gwmni McVitie's ei bod yn lleihau maint eu pecyn bisgedi Digestives o 500g i 400g.

Brecsit sy'n cael y bai, gyda'r canlyniad mai dim ond 27 bisged fydd ym mhob pecyn yn hytrach na'r 34 gwreiddiol.

Mae cynnydd yng nghost y deunydd crai, ynghyd a'r farchnad gyfnewid, yn golygu bod yn rhaid arbed costau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd meddai'r cwmni.

Mae'r naill gwmni a'r llall yn mynnu mai lles y cwsmer sydd yn cael y flaenoriaeth yn eu hymwneud â'r newidiadau yma, a bod y cynnyrch o hyd o'r radd flaenaf ac yn cynnig gwerth am arian. Eu dyhead ydi "cynhyrchu bwydydd y bydd y genedl yn ei garu am flynyddoedd i ddod", gan ychwanegu pwysigrwydd diogelu "bod y brand iconig yn fforddiadawy".

Sefydlwyd McVitie & Price Ltd yn 1830, rhyw gwa ddwy flynedd cyn sefydlu'r achos ym Methlehem, Gwaelod-y-garth!

Tybed nad oes yna rhywbeth am Toblerone a Digestives y gellid ei gymhwyso i'n golwg ni ar ein cred a'n crefydd y dyddiau hyn?

'Rydian ni wedi bod yn gofidio ers tro byd fod 'na fwy o ofod rhwng y mynychwyr sy'n eistedd ar seddau'r capel o Sul i Sul.

A'i maint, a'r nifer sydd yn y pecyn sy'n cyfrif yn y pen draw ynteu ansawdd y cynnyrch?

Ydi'r brand iconig yn cael ei werthfawrogi fel y bydd cenedlaethau'r dyfodol o hyd yn mynnu ei gael yn rhan o'u bywydau?

Ydi'n marchnata ni yn ddigon dygn a pherthnasol?

Gyda llaw, mae darogan bod pris te yn mynd i godi o 50% yn sgil brecsit hefyd, felly bydd premiwm ar y baned a'r fisged wedi'r oedfa wedi hynny!

ooooOOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.bethlehem.cymru

Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyftri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Mater Tywyll: Y Bydysawd Cudd gan Cari Powell

Nos Lun Ionawr 15fed 2018 cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Cari Powell, myfyriwr ymchwil yn Adran Ffiseg Prifysgol Abertawe am fater tywyll. Dyma'r stwff rhyfedd sydd yn gyfrifol am tua chwarter más y bydysawd - ond dydyn ni ddim yn gwybod beth yw e! Ond cyn mentro i'r gofod pell clywsom ychydig am Cari. Mae hi'n dod o Flaendulais, Cwm Nedd; derbyniodd ei haddysg gynradd yn lleol ac uwchradd yn Ystalyfera. Enillodd ei gradd gyntaf mewn Astroffiseg yn Aberystwyth ac yna aeth i Abertawe i ennill gradd meistr ar chwyddiant cosmolegol. Ar hyn o bryd mae'n gwneud ymchwil ar gyfer doethuriaeth mewn mater tywyll. Mae hi wedi bod yn brysur yn siarad ar hyd a lled Cymru ar y testun yma gan gynnwys yn ei hen ysgol yn Ystalyfera ac ar y rhaglen 'Prynhawn Da' ar S4C.

Y cwestiwn cyntaf yw: 'Beth yw mater tywyll?' Ar hyn o bryd yr ateb yw 'Does neb yn gwybod!' ond mae tystiolaeth gref bod rhywbeth anweledig yn tynnu ar bethau gallwn eu gweld trwy rym disgrychiant. Mae nifer o enwau mawr y byd seryddol wedi amau bod yna bydysawd cudd; disgrifir Fritz Zwicky o'r Swistir fel tad mater tywyll. Yn 1933 mesurodd fâs nifer o alaethau mewn clwstwr yn y patrwm sêr 'Coma' yn ôl eu symudiadau a gwelodd fod ei gyfanswm yn gannoedd o weithiau yn fwy na'r hyn gallodd ei weld. Yn fuan wedi hynny, daeth nifer o achosion eraill i'r golwg lle'r oedd yn rhaid bod rhyw gyrff cudd yn cadw galaethau a chlwsterau o alaethau at ei gilydd.

Dyfeisiwyd nifer o ddamcaniaethau i esbonio'r ffenomen ryfedd yma, gan ddechrau gyda gwrthrychau mawr fel tyllau duon, sêr niwtron, planedau mawr neu sêr bychain. Ond er chwilio, ni ddaeth digon ohonynt i'r golwg. Bu rhaid dyfeisio gronynnau egsotig, tua maint y protonau sydd yng nghanol atomau, sydd yn effeithio yn wan iawn ar fater cyffredin. Ond parhau mae'r chwilio am y gronynnau yma hefyd. Yn olaf soniodd Cari am y gronynnau llai fyth, o'r enw Acsionau; hyn yw maes ei ymchwil damcaniaethol hi. Mae nifer o arbrowfwr wrthi ar hyn o bryd yn chwilio am y rhain; mae Cari yn gweithio ar y fathemateg all arwain at ffyrdd eraill o ddarganfod yr ateb i'r dirgelwch cosmig hwn.

Yn olaf, gellir cael mwy o fanylion ar y maes yma mewn erthygl ysgrifennodd Cari i gylchgrawn ar-lein diddorol a dwyieithog o'r enw parallel.cymru. Ewch i parallel.cymru ar y we i ddarllen mwy.

Rhys Morris

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Merched y Wawr

Fe wnaeth yr aelodau mwynhau eu hymwelid â'r Plygain ym Mhentyrch ym mis Ionawr. Sesiwn Ioga a Meddwlgarwch gyda Mari Rhys, Caerdydd sydd yn eu disgwyl nesa. Dewch draw i Gapel Sardis nos Iau, Chwefror 8fed am 7.30.p.m.

Clwb y Bont

Dewch i'r Clwb nos Sadwrn Chwefror 10 fed pan fydd Guto Dafis a Danny Kilbride yn cynnal noson o gerddoriaeth Cymraeg, Saesneg a Llydewig. I ddechre am 8.00p.m

Clwb Llyfre

Y gyfrol dan sylw mis Chwefror yw 'Porth y Byddar' gan Manon Eames. Byddwn yn cwrdd yng Nghlwb y Bont nos Fawrth Chwefror 13eg am 8.00p.m.

Llyfr Saesneg yw'r dewis ar gyfer mis Mawrth. Byddwn yn cwrdd nos Fawrth, 13eg o Fawrth am 8.

Peidiwch ag anghofio am ein noson arbennig 'Cwrdd ag Awdur' nos Wener Chwefror 2il am 7.30yh pan fydd Cyril Jones yn holi Eiry Miles am ei chyfrol ddiweddar 'Glas a Gwyrdd.'

Croeso

Llongyfarchiadau i Robert a Katey Edwards, Meisgyn ar enedigaeth Martha Kate ar Ion. 1leg. Chwaer fach i Henry Morgan ac wyres i Dafydd Idris, Y Comin

Pap

Digwyddiad nesa Pwyllgor Apêl Pontypridd yw cwis. Yn dilyn siom o orfod gohirio'r noson gwis cyn Nadolig dyma fentro eto gyda Nosen Cwis, Bingo a 'nibbles'. Beth am ddod draw i Glwb y Bont nos Wener Mawrth 2il am 7.30p.m.? Timau o 4 - £3 y pen

Newyddion trist

Ychydig ddyddiau cyn Nadolig bu farw Beryl Edwards, Y Comin. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Coedpenmaen ym mis Ionawr. Talwyd teyrngedau iddi gan ei mab, Robert a Wil Morus Jones yn ogystal â chyn weinidog y capel. Estynnwn ein cydymdeimlad at Dafydd Idris, Robert a'i deulu a James.

Estynnwn cydymdeimlad i Alun, Branwen a Siriol, Y Porth. Bu farw mam Alun, Mrs. Phyllis Cox, Cwmbran yn sydyn ym mis Ionawr.

Mae ein meddyliau hefyd gyda Herbie ac Alona Rees, Y Comin a'r teulu. Bu farw brawd Herbie, Dennis Rees, Pembre ond yn wreiddiol o Wdig, Sir Benfro ym mis Ionawr.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com



Colli 'DJ'

Bu farw D J Davies yn ei gwsg yn ystod oriau mân fore Gwener, 19 Chwefror yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Roedd yn 94 oed. Cymwynaswr caredig oedd DJ. Fe oedd colofnydd Tafod Elái yn Nhonyrefail nes ei fod yn 82 oed, roedd yn gynghorydd Plaid Cymru ar Gyngor Taf Elái, yn llywodraethwr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail am flynyddoedd mawr ac roedd mwy neu lai wedi cynnal Capel y Ton yn Nhonyrefail ar ei ben ei hun ym mlynnyddoedd ola'r capel. Bydd nifer ohonoch yn ei gofio hefyd fel ffotograffydd swyddogol yr Wyl Ddrama.

Daeth o gefn gwlad Sir Gâr i weithio yn Nhonypanydd lle cwrddodd â'i ddiweddar wraig Joan ac rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â'r plant Iwan ac Eirwen a'u teuluoedd yn eu galar. Roedd yn un o staff gwreiddiol Amgueddfa Werin Sain Ffagan pan agorodd ym 1948 ac yno y bu'n gwehyddu weddill ei yrfa.

Ond mae'n siŵr y bydd pawb oedd yn ei nabod yn cofio "y wên na phyla amser" a rannau gyda'r DJ arall. Roedd wrth ei fodd yn cael sgwrs ac yn hel atgofion ac roedd y straeon yn aml am ei Sir Gâr enedigol. Coffa da iawn amdano.

Cân i Gymru

Os byddwch yn digwydd bod yn eistedd o flaen y teledu ar Fawrth 1af, cofiwch fwrw pleidlais dros gân Gwynfor Dafydd, 'Ton'. Mae'r gân, a gyfansoddwyd ar y cyd â Michael Phillips o Abertawe'n wreiddiol, wedi cyrraedd rownd derfynol Cân i Gymru a fydd yn cael ei chynnal yn Pontio ym Mangor.

Cartrefi newydd

Pob dymuniad i Meilyr Geraint yn ei ddy newydd yn y Trallwn.

Croeso nôl i'r ardal i Nona Evans sy wedi symud o Aberystwyth i Lwyncelyn, Y Porth. Mae'n siŵr bod Branwen, Alun a Siriol yn falch o'ch cael yn byw yn agosach atynt.

Bydd Taith Pyllau Mwdlyd Peppa i Achub y Plant yn ei ôl yn y gwanwyn ar gyfer meithrinfeydd a theuluoedd

Y Gwanwyn hwn bydd digwyddiad codi arian mwyaf mwdlyd y DU ar gyfer plant bach yn ei ôl – **Taith Pyllau Mwdlyd Peppa i Achub y Plant**. Y llynedd bu 160,000 o blant yn rhan o'r digwyddiad, gan godi £243,000 ar gyfer gwaith hanfodol Achub y Plant, ac eleni mae'r elusen yn gobeithio y bydd hyd yn oed mwy o bobl yn cofrestru, cymryd rhan a chyfrannu.

Rhwng 23 a 29 o Ebrill 2018 anogir meithrinfeydd, grwpiau blynyddoedd cynnar, teuluoedd a phlant ar hyd a lled y wlad i gymryd rhan mewn Taith Pyllau Mwdlyd i godi arian at yr elusen blant rhyngwladol.

Mae trefnu Taith Pyllau Mwdlyd yn ddull gwyb o annog eich plant bach i archwilio'r byd o'u cwmplas a neidio mewn pyllau mwdlyd, fel y cymeriad Entertainment One *Peppa*, er budd achos da. Os ydych yn neidio mewn pyllau ar hyd llwybr yn y parc neu yn bod yn greadigol drwy greu eich pyllau eich hun y tu mewn o bapur a ffoil – bydd eich Taith Pyllau Mwdlyd yn ddiwrnod llawn hwyl i dreulio gyda'ch gilydd yn creu atgofion gyda'r plant bach. Gellir codi arian ymha bynnag ddull sy'n addas i chi – gallwch helpu'r cerddwyr i hel nawdd am gerdded, gofyn am gyfraniad i gymryd rhan neu hyd yn oed coginio cacennau bach Pyllau Mwdlyd i'w gwerthu ar y diwrnod! Bydd yr arian y byddwch yn ei gasglu yn helpu gwaith Achub y Plant i drawsnewid bywydau plant bregus yn y DU ac ar draws y byd.

Cofrestrwch nawr ar MuddyPuddleWalk.org i dderbyn eich Pecyn Codi Arian Taith Pyllau Mwdlyd am ddim, sy'n llawn dop o weithgareddau wedi eu hysbrydoli gan *Peppa* i'ch rhoi ar ben ffordd – gydag awgrymiadau ar gyfer teithiau cerdded gwyh y tu mewn ac yn yr awyr agored, syniadau codi arian, gweithgareddau hwyliog i baratoi eich cerddwyr at y diwrnod mawr, ac ar ddiwedd y daith, bydd sticer arbennig *Peppa* ar gyfer pob plentyn. Bydd y pecyn codi arian hefyd yn esbonio sut fywyd sydd gan blant mewn gwledydd gwahanol, gan eu helpu i weld sut y mae nhw yn gwneud gwahaniaeth drwy gefnogi Achub y Plant.

I ymholi am ddeunyddiau fel posteri, ffurflenni noddi a pheccynau codi arian yn y Gymraeg cysylltwch gydag Eurgain Haf a/neu Rhian Brewster yn swyddfa Achub y Plant yng Nghaerdydd:

Eurgain Haf: 02920 803253 / 07900214959

e.haf@savethechildren.org.uk

Rhian Brewster: 02920 803270 / 07827 663629

r.brewster@savethechildren.org.uk

Apêl Pentyrch a Chreigiau, Eisteddfod Caerdydd 2018 - Digwyddiadau'r Gwanwyn

Gyda llai na 7 mis i fynd tan y bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dod i Fae Caerdydd, mae'r pwysau'n codi i sicrhau bod targed cyfraniad y gymuned leol i'r digwyddiad yn cael ei gyrraedd! Dyma felly ddigwyddiadau'r Gwanwyn sydd yn cael eu trefnu gan y Pwyllgor yn ein hardal ni -

Noson Rasio Ceffylau yng Nghlwb Rygbi Pentyrch 8fed o Fawrth

Tocynnau ar gael drwy ffonio 07855 453409 neu cysylltwch ag aelod o'r Pwyllgor. Dewch am dipyn o hwyl a sbri, fydd yn cael ei arwain gan y darlledwr heb ei ail, John Hardy.

Cyngerdd Arbennig gyda Charlie Lovell-Jones 5ed o Ebrill

Tocynnau ar gael cyn hir – ewch i gyfri Facebook neu Twitter y Pwyllgor (gweler isod) am fanylion, neu ffoniwch 07855 453409.

Yn frodor o Gaerdydd, mae'r feiolinydd ifanc wedi cael ei ddisgrifio fel un o gerddorion mwyaf addawol y DU. Yn enillydd y Rhuban Glas Offerynnol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, mae Charlie wedi perfformio fel unawdydd gyda Cherddorfa Genedlaethol Cymru y BBC, Cerddorfa Gyngerdd RTE yn Iwerddon a Cherddorfa Siambr Lloegr, ymysg eraill. Yn 15 oed fe berfformiodd *The Lark Ascending* fel unawdydd yn y Royal Festival Hall, a chyda'r delynores Catrin Finch mewn cyngerdd yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni 2016.

Noson Fawreddog Arall – Mai 2018!

I'r rheiny fynychodd y Noson Fawreddog gyda Footloose yng Nghlwb Rygbi Pentyrch fis Mai 2017, byddwch yn gwybod am lwyddiant y noson, a'r hwyl a gafwyd. Penderfynwyd felly i drefnu ail Noson Fawreddog i gloi gweithgareddau'r Pwyllgor eleni. DYMA EICH NODYN I'R DYDDIADUR FELLY! Rhagrybudd y bydd y noson eleni yn cael ei chynnal yn y babell fawr ar Barc y Dwyrin, Clwb Rygbi Pentyrch ar yr 11eg o Fai 2018 - manylion i ddod yn fuan.

Cyfamodi – dull hawdd o gyfrannu

Diolch yn fawr iawn i'r rheiny ohonoch sydd wedi gwneud cyfraniadau hael at yr ymgyrch eisoes, rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

Os hoffai unrhyw un wneud cyfraniad at yr Apêl yn uniongyrchol, boed hynny drwy daliad unigol neu fisol, yn fawr neu'n fach, os gwelwch yn dda a wnewch

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:

Nia Williams

colin.williams@talktalk.net

MyW - Cangen y Garth

Yn ein cyfarfod mis Rhagfyr cawsom lu o syniadau a gwledd i'r llygad a'r bol! Daeth Ruth Davies atom i rannu tipiau hynod ymarferol a deniadol o safbwynt addurno, goleuo, bwydo a pharatoi yn gyffredinol ar gyfer yr Wyl. Daw Ruth o Fangor yn enedigol ond wedi hyfforddi yma yng Nghaerdydd cafodd yrfa amrywiol - dysgu'n Ystalyfera, gwaith ymgynghorol yn y Gogledd, darlithio yn y Coleg Normal ac yna wedi ymddeol dychwelyd i fyw i Gaerdydd gyda'i gŵr Bill - er mwyn bod yn nes at yr wyrion. A chwarae teg iddi - mae hi wedi ymdaflu yn llwyr i fywyd cymdeithasol, Cymraeg y brifddinas. Diolch am noson hynod ddifyr a chwmpeini cynnes braf!

Yna - mis Ionawr - dyma'n ni'n dathlu Santes Dwynwen gyda phryd hyfryd iawn yn y Clwb Golff, Creigiau. Noson hwyliog a chymdeithasol! Jyst bwyta a chlonecian! Diolch i Chris a'r staff yn y Clwb am noson arbennig iawn! A diolch i bawb am gfnogi!

Clwb Gwawr Creigiau a'r Cylch

Cafwyd noson hyfryd yn gwneud torch Nadolig yn Neuadd yr Eglwys Creigiau ym mis Rhagfyr. Kath Stallard fu yn amyneddgar iawn yn ein helpu i greu addurn trawiadol ar gyfer ein drysau dros yr Wyl - diolch yn fawr iddi.

Pryd o fwyd oedd yr uchafbwynt ym mis Ionawr.

Gwersi gyrru cyfrwng Cymraeg

Os ydych yn edrych am wersi gyrru Geraint Davies yw y dyn. Mae'n gyn ddisbgybl o Ysgol Glantaf ac ar gael i roi gwersi yn ardal Caerdydd a Rhondda. Cysylltwch ag e ar: 07831 258580

Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Eleri a Tom ar eu priodas yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf nôl ym mis Hydref. Eleri yw merch

chi gysylltu gyda'r Trysorydd, Iwan Griffith ar ewanbethan@btinternet.com / 07900 408 513 / Tŷ Canol, Heol y Parc, Pentyrch, CF15 9NB.

Trydar a Gweplyfr!

Gall y rheiny ohonoch sydd ym myd y cyfryngau cymdeithasol gael mwy o wybodaeth am y digwyddiadau, cynnig syniadau ar gyfer digwyddiadau i ddod, neu unrhyw ddull arall o godi arian drwy ein dilyn ar y canlynol.

Ymunwch / Dilynwch! –

Twitter - @ApelPC2018

Facebook - Pwyllgor Apêl Pentyrch a Chreigiau Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018



ifanca Helen a Gordon Middleton, ac mae Tom Curran sy'n hanu o Notais, Porthcawl yn fab i Tim a Patricia Curran. Priodwyd y ddau gan gyfaill agos i'r teulu sef Rhys Dafis, bellach o Lansannan, gynt o Greigiau, mewn gwasanaeth hyfryd o deimladwy. Braf yw nodi bod y ddau ifanc wedi dychwelyd i Gymru i fyw ac i weithio wedi cyfnod yn Bedford. Bellach mae Tom yn gweithio i'r Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan tra bo Eleri wedi cael swydd gyda Sefydliad Ffrwyddlondeb Cymru. Pob hapusrwydd eich dau a phob dymuniad da yn eich cartref newydd.

S4C ar dân i gyrraedd gwylwyr newydd wrth gyhoeddi ap newydd

Mae gwylwyr gwasanaeth Amazon Fire bellach yn gallu manteisio ar ap newydd er mwyn gwyllo rhaglenni S4C.

Mae ap S4C ar gyfer y gwasanaeth Amazon Fire ar gael i'w lwytho o Amazon nawr. Mae'n rhoi mwy o amlygrwydd i gynnwys y sianel ar y gwasanaeth yma, ac yn hwyluso gwyllo'r sianel yn fyw a'r amrywiaeth fawr o raglenni sydd ar gael ar alw.

Meddai Owen Evans, Prif Weithredwr S4C; "Gyda'r ap newydd yma rydym yn agor llwybr newydd i wylwyr at ein rhaglenni, ac yn caniatáu iddyn nhw ddewis gwledd unrhyw raglen o'r amserlen yn fyw neu ar alw yn rhwydd. Ein gweledigaeth yw sicrhau fod S4C yn cael ei gynnwys ar bob llwyfan, gan gynnwys pob set deledu glyfar sy'n cael ei hadeiladu, cam hanfodol er mwyn cynnal argaeledd at gynnwys iaith Gymraeg ac rydym yn gweithio tuag at ryddhau ap ar gyfer Samsung TV yn yr wythnosau nesaf. Mae rhyddhau'r ap yma yn gam mawr tuag at sicrhau mynediad rhwydd i'r gwasanaeth i ddefnyddwyr dau o'r gwasanaethau mwyaf poblogaidd yn y DU, Samsung TV ac Amazon Fire. Mae hyn yn rhan o weledigaeth ddigidol hirdymor S4C."

Mae S4C eisoes ar gael ar bob llwyfan gwyllo ar deledu yng Nghymru, ac ar draws y DU ar Sky, Freesat a Virgin TV. Mae pob rhaglen ar gael yn fyw neu ar alw ar s4c.cymru, BBC iPlayer, YouView, tvplayer.com ac Ap S4C ar gyfer Android ac iOS.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mawrth
i gyrraedd erbyn
22 Chwefror 2018

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
<http://www.tafelai.com>

Argraffwyr:
Copyprint Wales
Trefforest
www.copyprintwales.co.uk

CYMRAEG

*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Gwasanaeth addurno,
peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol
ar gyfer eich cartref
neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw
waith addurno



Colofn Blasus ac Iachus

Diolch arbennig i Eluned Davies-Scott sydd wedi cyflwyno cyfres ddiddorol iawn o rysetiau i ni dros y ddwy flynedd diwethaf. Roedd cael hanes y rysetiau a chefnidir rhai o'r cynhwysion yn rhoi blas arbennig wrth ddarllen y rysetiau.



MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Sgwrs ddifyr gan Ashok Ahir

8yh Nos Fawrth,
Chwefror 7ed
yn Y Ganolfan, Efail Isaf

Gwybodaeth bellach: 02920890979



MERCHED Y WAWR
Pontypridd

Mari Rhys – Yoga a Meddwlgarwch

7.30yh Chwefror 8ed
Yn Festri Capel Sardis

8fed o Fawrth
Cinio Gŵyl Dewi
Trattoria Tonysguboriau

Rhagor o fanylion:
01443 485272



**CYLCH
CADWGAN**

ALED ISLWYN yn siarad ar y testun 'Tair afon – Un dinas'

Nos Wener 9 Chwefror 2018
am 8.00yh
yn Festri Bethlehem,
Gwaelod y Garth

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau,
bob dydd Gwener am 11 y bore.
Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.



**CLWB Y
DWRLYN**

Rifiw

8yh Clwb Rygbi Pentyrch
Nos Iau, 15 Chwefror 2018

Cinio Gŵyl Ddewi

Prynhawn Sul
4 Mawrth 2018
Yng Nghlwb Golff Creigiau

Manylion: 029 20890040



MERCHED Y WAWR
Tonysguboriau

Chwefror 21ain

'Byd yr adar bach' -
Daniel Jenkins Jones
o RSPB

Rhagor o fanylion:
01443 223828

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Cinio Gŵyl Ddewi -
Gŵr Gwadd – Richard Elfyn

Clwb Golff Creigiau
Nos Wener, 9 Mawrth 7.00.pm ar
gyfer 7.30.pm

Manylion: 01443 203809

Cylch Llyfryddol Caerdydd

Gwener, 16 Chwefror 2018
Sgwrs gan y Parch. Ddr D. Ben
Rees am gyfraniad mawr
yr Arglwydd Gwilym Prys Davies,
a fu farw yn 2017.

Cynhelir y cyfarfodydd am 7.00 o'r gloch yn
Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle
Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10
3EU.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Clwb Rygbi Pentyrch

(Lluniau Tudalen 4)

Mae pethe'n mynd o nerth i nerth i'r Clwb Rygbi ar ddechre'r flwyddyn newydd. Y tim cynta'n cael llawer gwell hwyl arni o dan y tim hyfforddi newydd - Mal Jones a Phil Bartle. Wedi ennill 7 o'u 10 gêm cynghrair hyd yn hyn, gan sgori llu o geisie - maen nhw wedi bod yn y 4 ucha yn yr adran reit ers dechre'r tymor. A braf nodi bod ail dîm wedi cael ei ffurfio unwaith eto - criw o gyn chwarewyr gan fwya'n dod at ei gilydd i chware am hwyl, ond er mawr syndod wedi ennill pob un o'u gemau hyd yn hyn. Mae'r tim ieuenctid a'r mini a'r ifanc - o 6 - 15 oed - hefyd yn chware'n gyson a llwyddiannus.

Mae'r ochr gymdeithasol hefyd yn ffynnu. Nodon o ganu carole i'r M & I cyn y Dolig; y tim laf a'r ail yn trefnu noson karaoke llawn hwyl; criw o hoelion wyth y clwb yn ymuno yn sbort Tashwedd gan godi £1,200 at ymchwil cancr, ac yn goron ar y cyfan, neb llai na chapten y Llewod Sam Warburton yn westai yn y noson Pei a Potsh flynyddol - yn sgwrsio gyda'r Llywydd am ychydig, ac yna'n ateb cwestiynau o'r llawr, a phawb yn sôn pa mor ddiymhongar oedd Sam a pha mor rhugl, onest a llawn hiwmor ar brydie wrth ateb. Nodon i'w thrysori. (H Ll D)

Ymddeoliad Hapus

Dymunwn yn dda i Gwyneth Jones, Penffordd, wedi iddi ymddeol o'i gwaith gweinyddol yn y Stafell Fyw. Mwynha dy ymddeoliad Gwyneth.

Dymuniadau Da

Da yw deall bod Ioan Davies, mab Ann ac Emlyn, yn gwella wedi iddo dderbyn triniaeth yn yr ysbyty cyn y Nadolig.

Y Plygain

Roedd Eglwys Sant Catwg dan ei sang ar gyfer dathlu'r Plygain a ddaeth erbyn hyn yn un o uchafbwyntiau calendr Clwb y Dwrllyn. Arweiniwyd y gwasanaeth yn ddeheuig yn ôl ei arfer gan Rhodri Gwynn Jones ac fe gnewyd naws hyfryd a chynnes wrth i gôr bach Ysgol Gynradd Creigiau agor y noson yn swynol dros ben. Yna cafwyd gwledd o ganu safonol tu hwnt gan unigolion a phartion - canu a wefreiddiodd y gynulleidfa. Wedi i'r Parchedig Michael John gyflwyno'r fendith ymunodd pawb i ganu Carol y Swper dan arweiniad Parti'r Efail.

Casglwyd £469 tuag at elusen yr Eglwys eleni, sef "One Family Cardiff" - elusen a fydd yn rhoi cartre i deulu o Syria yng Nghaerdydd. Maent yn



01443 407570

www.menteriaith.cymru

Gwasanaethau Plant

Hoffwn groesawu aelod newydd i'r tim gwasanaethau plant. Harriet John yw ein swyddog cynlluniau chwarae newydd. Ei rôl fydd i drefnu cynlluniau chwarae poblogaidd y Fenter.

Mae hi wrthi yn trefnu'n barod ar gyfer cynlluniau chwarae'r Pasg.

Os ydych chi'n chwilio am ofal plant adeg hynny rhwch y dyddiadau yma yn eich dyddiaduron.

Cynllun Chwarae Garth Olwg

Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg

2ail - 13eg o Ebrill. 9 - 5pm

£18 y sesiwn £25 ar ddiwrnod y trip

Ffoniwch: 01443 407570 am fwy o fanylion

Y Fenter yn cefnogi'r Gymraeg yn y gymuned

Mae'r Fenter yn edrych 'mlaen i gefnogi adran gwasanaethau y blynyddoedd cynnar a chymorth i deuluoedd cyngor Rhondda Cynon Taf.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn bwydo i fewn i gynllun cyffrous iawn o drefnu sioe deithiol cymunedol i deuluoedd i ddathlu'r Gymraeg. Bydd hwn yn

gobeithio y bydd y tîm yn barod erbyn y Pasg.

Yna aeth criw niferus ymlaen i'r Kings i groesawu'r Fari Lwyd a mwynhau'r hwyl a'r sbri.

Unwaith eto bu'n noson gofiadwy a diolch i bawb a fu wrthi'n ddiwyd yn trefnu.

Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Carol Williams, Pantbach, ar ddathlu penblwydd arbennig noson y Plygain.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad i Ann a Rhodri Gwynn Jones a'r teulu wedi marwolaeth brawd yng nghfraith Rhodri, Keith Fretwell, ym Mhenygroes cyn y Nadolig.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau gwresog i Catrin Heledd, merch Eleri a Ken Jones, ar ei dyweddiad â Rob Wedlake o Benarth. Mae Catrin yn ohebydd chwaraeon i'r BBC a Rob yn gyfarwyddwr cwmni Tennis Squad. Dymunwn yn dda i'r ddau.



Clwb
Mynydd
Cymru

Mae Clwb Mynydd Cymru yn hyrwyddo mynydda drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn agored i bawb sy'n hoff o fynydda mewn cwmni hwyliog, diogel a chefnogol. Yn yr ardal hon mae Dewi Hughes, Pentyrch, yn trefnu'r rhaglen deithiau.

Mae'r daith nesaf ddydd Sadwrn, 10 Mawrth yn cychwyn o bont William Edwards Pontypridd, ac yn mynd ar hyd llwybr y pererinion i Benrhys heibio Ynysbwl a Llanwynno. Am wybodaeth bellach ac i ymuno â'r daith cysylltwch â Peredur Evans 07890 684180

EvansHP@cardiff.ac.uk

www.clwbmynyddacymru.com

digwydd dros 3 diwrnod yn ystod hanner tymor Chwefror - Dyddiadau ac amseroedd eto i'w gadarnhau. Y lleoliadau fydd - canolfannau plant y sir: Canolfan Dechrau'n Deg Penrhys, Canolfan Blant Rhydyfelin, Canolfan Dechrau'n Deg Aman. Mwy o fanylion i ddilyn ar gyfrifon cymdeithasol y Fenter dros yr wythnosau nesa'.

Dathlu Dydd Miwsig Cymru 2018 - 9fed o Chwefror

Dyma sut fyddwn ni'n dathlu:

9fed o Chwefror - Taith Ysgolion gyda DJ Gareth Potter

9fed o Chwefror - Cwis Pop yn ysgol Llanhari a Ysgol Gyfun Garth Olwg rhwng athrawon a disgyblion

12fed-15fed o Chwefror - Gweithdy Radio gyda Cymru FM - Ysgolion y sir

Gair gan Menna Isaac - Myfyrwraig brofiad gwaith

Helo, Fy enw i yw Menna Isaac. Rwyf ar hyn o bryd yn astudio Gradd Rheoli Busnes ym Mhrifysgol De Cymru. Rwyf yn wreiddiol o bentref bach, Penrhiwgoch yn agos at Gefneithin, Sir Gaerfyrddin, ond erbyn hyn wedi setlo mewn Llety Myfyrwyr yn Nhrefforest. Fel rhan o'm cwrs rwyf wedi cael y cyfle i ennill profiad o ddeg wythnos ym Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Fy rôl yn ystod fy nghyfnod yma fydd i farchnata a chasglu noddwyr ar gyfer Parti Ponty 2018, ond hefyd rwyf yn ceisio creu bas-data o'r busnesau lleol yn RhCT sydd yn darparu rhywfaint o'i gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Disgwyliaf ymlaen i gyfarfod a nifer o bobl leol yn ystod fy amser yma a dod i adnabod yr ardal yn well.

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail (Lluniau tudalen 15)

Ionawr Iachus

Mae'r dosbarthiadau wedi bod wrthi yn cadw'n heini bob dydd Gwener gydag ymgyrch 'Ionawr Iachus' yr Urdd. Mae'r disgyblion yn mwynhau ymgyrch yn fawr iawn.

Tîm Rygbi

Diolch yn fawr i aelodau'r tîm rygbi wnaeth gymryd rhan yn nhwrnament yr Urdd yn ddiweddar. Sgoriwyd nifer o geisiadau er gwaethaf y mwd!

Cân i Gymru

Llongyfarchiadau i Gwynfor Dafydd, cyn ddisgybl yn yr ysgol, ar lwyddo i gael ei gân i 8 olaf cystadleuaeth Cân i Gymru! Pob lwc iddo ac fe fyddwn yn siŵr o bleidleisio ar y noson!

Efaciwis

Fel rhan o'u gwaith project ar ardal Tonyrefail yn ystod yr Ail Ryfel Byd daeth disgyblion yr adran Iau i'r ysgol wedi eu gwisgo fel efaciwis. Rhoddodd pob disgybl gyflwyniad am brofiadau plant o'r dinasoedd mawr a ddaeth i fyw i Gymru.

sTONdin

Bu cwmni sTONdin wrthi yn brysyr y gwerthu eu nwyddau Nadolig yn ffair Nadolig yr ysgol. Roedd pob math o gynnyrch Nadoligaidd ar werth ac fe wnaethpwyd elw o £200. Diolch yn fawr i Mr Holland ein gofâlwr ac i Miss Kempster am helpu gyda'r gwaith. Mae'r cwmni sTONdin bellach yn meddwl am bethau newydd i'w creu ar gyfer ein BBQ yn nhymor yr haf!

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair Nadolig llwyddiannus iawn eto eleni gydag amrywiaeth eang o stondinau yn gwerthu eu nwyddau. Yn ogystal roedd disgyblion Bl 3-6 wedi creu nwyddau eu hunain i'w gwerthu fel rhan o'u gwaith 'Sgleinio'r Sgiliau'.

Cyngerdd Cracyr Nadolig

Bu côr yr ysgol yn cymryd rhan mewn Cyngerdd Nadolig Cymunedol yn New Life Community Church yn Nhonyrefail. Diolch yn fawr i'r disgyblion ac i Mrs Welsh eu harweinyddes.

Hud y Crochan Uwd

Cafodd plant Blwyddyn 1 a 2 amser wrth eu boddau yn Theatr y Sherman yn gweld y sioe Hud y Crochan Uwd. Roeddynt wedi eu gwefreiddio â'r sioe ac wedi mwynhau'r profiad o ymweld â Theatr y Sherman.

P.C.Lloyd

Diolch yn fawr i P.C.Lloyd am ddod i siarad gyda phlant blwyddyn 4 am bwysigrwydd bod yn ymwybodol o beryglon siarad â dieithriaid ac i fod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio gwefannau cymdeithasol.

Pantomeim

Roedd disgyblion yr Adran Iau wedi mwynhau eu trip i'r Miwni ym Mhontypridd i weld y pantomeim 'Culhwch ac Olwen' a dysgu mwy am chwedlau Cymraeg.

Sioeau Nadolig

Cafwyd sioeau Nadolig ardderchog unwaith eto eleni sef 'Y Calendr Adfent' gan ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn Eglwys Dewi Sant a 'Pantolig' gan yr adran Iau yng Nghanolfan Hamdden Tonyrefail. Diolch yn fawr iawn i'r holl blant a staff am eu gwaith caled i sicrhau perfformiadau caboledig.

Siôn Corn

Bu'r dosbarth Meithrin a Derbyn ar drip i Barc Gwledig Dâr i weld Siôn Corn - roedd pawb wedi derbyn anrheg ac wedi mwynhau cael picnic. Daeth Siôn Corn i ymweld â holl ddisgyblion yr ysgol i rannu anrhegion - roedd y plant wedi mwynhau sgwrsio yn Gymraeg

Profiad y Nadolig

Diolch yn fawr i Eglwys Dewi Sant Tonyrefail am y gwahoddiad i ddisgyblion Blwyddyn 2 gael blasu 'Profiad y Nadolig' eleni. Roeddynt wedi mwynhau cael eu tywys drwy 'r eglwys tra'n dysgu mwy am stori'r geni. Profiad hyfryd iawn a diolch yn fawr am y croeso.

Cylch Meithrin Cwm Elai

Braf oedd croesawu Cylch Meithrin Cwm Elai i gynnal eu Gwasanaeth Nadolig yn yr ysgol eleni. Roedd yn hyfryd gweld disgyblion y dyfodol yn perfformio yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg.

DOD Â PHOBL AT EI GILYDD

Ydych chi yn ysu cyfarfod rhywun eto? 'Da chi'n chwilio am berthynas gwaed? Neu'n dymuno dod o hyd i'r person hwnnw wnaeth gymwynas â chi flynyddoedd yn ôl? Ydych chi angen dweud diolch wrth rywun? Neu ail-gynnau tân ar hen aelwyd?!

Dyma gyfle ichi gael dod ynghyd...

Bydd cyfres newydd gyffrous ar S4C yn rhoi'r cyfle i bobl gyfarfod – boed ers blynnyddoedd maith neu am y tro cyntaf un – mewn cyfres o aduniadau ddaw â phobl yn ôl at ei gilydd i wireddu dyhead i weld rhywun o'r gorffennol unwaith yn rhagor.

Bydd 'na aduniadu yn digwydd rhwng aelodau teulu gwaed sydd wedi bod ar wahân am flynyddoedd, rhwng unigolion sy' wedi colli cysylltiad, rhwng cyn gyd-weithwyr, cyn-filwyr, aelodau o'r gwasanaethau brys a'r rhai a achubwyd. Dyma gyfle bythgofiadwy i ail-gydio yn y gorffennol, i ddod i adnabod perthynas am y tro cyntaf, i ail fyw profiadau melys a thrist, cyfle i ail-gydio mewn hen garwriaeth, cydnabod rhywun wnaeth ysbrydoli, neu ddweud diolch wrth rywun wnaeth dro da pan oedd wir angen.

Mae'r cwmni teledu Darlun yn estyn gwahoddiad i unrhyw rai sydd â diddordeb i gysylltu i drafod ymhellach.

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg (Lluniau tudalen 13)

Tripiau Meithrin / Derbyn

Mwynheuoedd plant y Meithrin a Derbyn eu trip i Techniquet yn ddiweddar fel rhan o'u thema ar 'Dwr'. Gwelsant sioe 'Around the World' hefyd.

Blwyddyn 1 a 2

Aeth plant Blwyddyn 1 a 2 ar drip i Tesco yn ddiweddar fel rhan o'u gwaith thema ar yr Archfachnad. Dysgon nhw am lysiau a ffrwythau gwahanol, gwelson nhw y broses o wneud bara, aethon nhw i'r storfa, yn ogystal a'r rhewgell! Diolch i'r holl rieni am helpu ar y trip, ac wrth gwrs i 'Tesco Tony' am arwain y sesiynau.

Glanllyn Blwyddyn 6

Profiad gwych yw Glan-llyn Mae Glan-llyn yn WYCH (oni bau am y daith hir)!! Dyna barn BL6 Ysgol Gynradd Gymraeg Gartholwg. Roedd nifer o weithgareddau yno yn cynnwys; adeiladu rafft (llwyddiannus), canwio, bowlïo, dysgu am hanes Tryweryn, saethyddiaeth, mynd i siopa yn y Bala a llawer mwy. Fy hoff weithgaredd oedd adeiladu rafft oherwydd dysgon ni sut i glymu rhaffau mewn nifer o wahanol ffyrdd!! Diolch Mr Meredith, Mrs Thomas a Miss Williams, roedd yn werth y daith!!

Osian Lloyd-Jones

Gala nofio

Dydd Sadwrn cystadlodd Samson Dossett, Evan Leach, Madison Ranson, Harri Postlethwaite a Hari Armstrong yng nghystadleuaeth Gala nofio Cenedlaethol yr Urdd ym mhwl Cenedlaethol Caerdydd. Roedd hi'n brofiad anhygoel iddynt! Da iawn chi blant!

Gymnasteg yr Urdd

Diolch i Mali, Chloe, Gracie, Catrin, Anya a Sara am gynrichioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd. Roeddech chi'n wych!

Ffair Nadolig Ysgol Gyfun Garth Olwg

Diolch i'r plant a fu'n creu canhwylau Nadoligaidd ar gyfer ffair Nadolig Ysgol Gyfun Garth Olwg.

Côr

Roedd y côr mor gyffrous i berfformio yng nghartref yr henoed yn ddiweddar. Canodd blwyddyn 3, 4, 5, a 6 eitemau gwahanol ac roedd cyfle i bawb ganu rhai o'r carolau gyda'i gilydd. Diolch i Mrs Howard am ein hyfforddi ni.

Gan blant y côr.

Os ydych chi eisiau cyfarfod efo rhywun eto, cysylltwch am sgwrs pellach efo Gwen o gwmni teledu Darlun ar 01248 531531 neu drwy ebost at gwen@darlun.tv

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Nadolig

Diolch i Mrs Bickford am helpu'r plant i greu addurniadau i addurno coeden Nadolig yr ysgol. Enillon ni'r wobwr gyntaf yn gystadlueaeth flynyddol

Coeden Nadolig Cyngor Cymunedol Llanrisant.



Cawsant bartïon Nadolig llawn hwyl a sbri yn gwrando a dawnio i gerddoriaeth Cymraeg. #siarteriaith. Gwisgon ni ein siwmperi Nadolig a chawson ni ginio blasus oddi wrth Mrs Garwood a staff y gegin.

Rygbi

Chwaraeodd tîm rygbi'r ysgol yn wych yng nghystadlueaeth 7 bob ochr yr Urdd ym mis Ionawr gan ennill yr ail wobwr. Cawsant lwyddiant mawr hefyd yn yr ŵyl Rygbi yn Heol Sardis ym mis Tachwedd. #Ymlaen



Pêl Droed

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed blwyddyn 4 a 5. Enillon nhw 9-2 yn erbyn Llwynyrwn ym mis Tachwedd.



Quiz Club

Llongyfarchiadau i'n tîm Quiz Club Gwyddoniaeth am ennill y rownd gyntaf nôl ym mis Tachwedd. Daethant yn chweched yn yr ail rownd a gynhaliwyd yn 'Monmouth Boys School' yng nghanol mis Ionawr.



Ionawr Iachus

Da iawn i bawb, staff a phlant, sydd wedi ymrwymo i #Ionawrlachus yn ystod y mis. Rydym ni wedi dechrau'r flwyddyn trwy gadw'n heini a deffro'r corff bob bore.

Siarter Iaith

Mae bwrllwm mawr wedi bod yn yr ysgol dros y misoedd diwethaf wrth i ni ymgymryd a'n targedau #siarteriaith. Mae Cewri Castellau wrth eu boddau yn dewis trac a chystrawen yr wythnos. Bûm yn hyfforddi'r menywod cinio i ddefnyddio geirfa Cymraeg yn ogystal â chwarae gemau buarth trwy gyfrwng y Gymraeg.



Arweinwyr Digidol

Diolch yn fawr i Tom Lewis am hyfforddi ein harweinwyr digidol i ddefnyddio Classrooms, QuickDraw a Googlemaps.



Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg (Tudalen 12)



Hwyl yn Techniquet



Archfarchnad Tesco



Y Gala Nofio



Y Fari Lwyd yn ymwled a'r plant!



Y Tîm Gymnasteg



Creu canhwylau Nadoligaidd



Y Côr yn y Cartref Henoed

Ysgol Gyfun Garth Olwg

School of Rock

Dechreuodd ein taith wfreiddiol o dair awr i Lundain wrth gamu ar fws moethus Edwards. Cyrhaeddodd y ddinas fawr ar ôl cinio yn y gwasanaethau yn barod ar gyfer prynhawn yn 'Winter Wonderland' yn Hyde Park. Roedd cael profi nifer helaeth o reidiau mentrus a stondinau losin yn ffordd wych o ddechrau ein cyfnod yn y brifddinas er gwaethaf y tywydd glawiog. Agoriad llygad oedd cael gweld rhyfeddodau'r ddinas; o'r adeiladau amrywiol i'r addurniadau Nadolig wrth i'r strydoedd ddeffro i'r wyl. Yn dilyn diwrnod prysur, hyfryd oedd cyrraedd y gwesty â byrgyr yn ein boliau.



Brecwast traddodiadol i ddechrau'r ail ddiwrnod cyn mynd i Covent Garden. Siopa cyn y sioe gyda phawb yn ceisio prynu anrhegion cyn y 25ain! Cynyddodd fwrwm y theatr wrth i gynhyrchiad 'School of Rock' agosáu. Profom ddoniau anhygoel yr actorion ifanc wrth iddynt ganu'r offerynnau fel rhan o fand yn fyw ar y llwyfan. Roedd caneuon Andrew Lloyd Webber yn ysbrydoliaeth i'r cerddorion yn ein mysg ac actio Stephen Leask yn rhoi gwefr i unrhyw berfformiwr.

Teithiom nôl i Bentre'r Eglwys wedi'n hysgwyd o hyd gyda phawb yn trafod safon ragorol y cynhyrchiad. Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff am ddod gyda ni ac yn enwedig i'r Adran Gerddoriaeth a Drama am drefnu'r daith fythgofiadwy! Gan Llew Jones, Blwyddyn 11.

Noson Garolau



Roedd y noson garolau yn ddigwyddiad llawn o ysbryd Nadoligaidd. Ymhlith y perfformiadau cawsom glywed telynu a gitâr yn canu rhai o'n hoff ganeuon Nadoligaidd, darlenniadau, drama bwerus gan ddisgyblion blwyddyn 10 am wir ystyr yr wyl a charolau i bawb ganu gyda'i gilydd. Roedd y noson wir yn arddangos talent yr ysgol, gyda chôr enfawr yn rhannu'n gôr merched, meibion a chôr staff, a chyfanswm o 5 eitem offerynnol gan y disgyblion iau. Ond i mi, uchafbwynt y



noson oedd y gynulleidfa a'i pharodrwydd i ymdaflu'n llwyr i naws y noson, gan ymuno i ganu pob carol gyfarwydd gan greu noson ddiwyf a chofiadwy. Gan Morgan Evans, Blwyddyn 12

Dod â'r Nadolig i gartre'r henoed



Treuliodd rhai o'n disgyblion talentog fore hyfryd yng nghwmni trigolion cartref henoed Garth Olwg yn canu carolau ac eitemau offerynnol.

Llwyddiant yn y pwll

Llongyfarchiadau mawr i fechgyn blwyddyn 9 a 10 yng ngala nofio cenedlaethol yr Urdd yn y Pwll Rhyngwladol yng Nghaerdydd. Llwyddodd Carwyn Salmon, blwyddyn 9 i ddod yn 3ydd yn y 100 medr rhydd a'r 100 medr broga a daeth tîm cyfnewid bechgyn blwyddyn 9 a 10 yn gyntaf yn y dull rhydd ac yn ail yn y dull amrywiol ar draws Cymru gyfan. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw!

Twrnaint pêl-droed Yr Urdd, merched o dan 15.



Ddydd Iau, y seithfed o Ragfyr, aethom ni, dîm pêl-droed merched o dan 15, i dwnnamaint Pêl Droed Yr Urdd, yn Heol Sardis, lle chwaraeom ni ysgolion lleol mewn twrnaint rownd robin. Yn gyntaf chwaraeom ni yn erbyn Bryn Celynnog. Dechreuon ni'r twrnaint yn gryf ac enillon ni 3-0. Sgoriodd Megan Bowen, o flwyddyn 8, 2 gôl a Beca Jones o flwyddyn 10 un. Yn ail, chwaraeom ni'r Pant. Roedd y gêm yma'n eithaf agos ac roedd yn anodd i ni sgorio. Ond, yn ffodus, sgoriodd Megan Bowen gôl wych i'n gosod ar y blaen 1-0 ac i'n gwneud yn fuddugol. Dilynodd gêm agos arall yn erbyn Pontypridd High. O drwch blewyn enillom ni 1-0. Cafwyd chwarae arbennig i lawr y cae a sgoriodd Megan Bowen y gôl fuddugol eto! Ar ôl y ddwy gêm agos cawsom ddwy gêm eithaf hawdd, gan guro'r Ddraenen Wen (A) 4-0. Diolch eto i Megan Bowen a sgoriodd y pedair gôl. Yna, chwaraeom yn erbyn Y Ddraenen Wen (B) ac enill 5-0. Y tro hwn sgoriodd Katie Harding, Lara Watts, Eliza Collie (hefyd o flwyddyn 8)

un yr un, ac Ellie Harris a Nia Williams o'r amddiffyn a sgoriodd un yr un hefyd. Ar ôl i ni chwarae pob tîm, aethom ni drwodd i'r rownd derfynol i chwarae Bryn Celynnog, unwaith eto. Y tro yma chwaraeom ni'n llawer gwell fel tîm ac enillom y rownd derfynol 7-0. Eto sgoriodd Megan Bowen 4 gôl, a sgoriodd Eliza Collie, Katie Harding a Lara Watts 1 gôl yr un. Roedden ni i gyd yn falch i fod yn fuddugol heb adael un gôl i mewn trwy'r dydd. Da iawn i bob un o'r merched canlynol fu'n rhan o lwyddiant y tîm: Beca Jones, Carys Minton, Ellie Harris, Katie Harding, Jenna Hill, Georgia Maisey, Lara Watts, Nia Williams, Eliza Collie, Megan Bowen.

Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm wnaeth guro Ysgol Cwm Tawe ac sydd wedi ennill ei le yng ngemau cynderfynol Cwpan Cymru.

Athletau

Cystadlodd Alex ac Anna Halliday ym mis Rhagfyr ym mhencampwriaethau rhanbarthol Cymru dan do yng Nghaerdydd. Enillodd Alex fedal aur yn y 200m gan ddod yn gyntaf yn Ne Cymru ac yn gyntaf yn y gystadleuaeth yn gyfan gwbl gydag amser o 23.77 eiliad. Daeth Anna yn seithfed yng ngrŵp merched dan 13 oed yn ras 200m ar gyfer De Cymru. Rhedodd Anna ei hamser gorau erioed sef 30.16 eiliad. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ar eu llwyddiant.

Celf



Cafodd yr adran Gelf ei gwahodd i'r Ganolfan Gydol Oes i rannu'r profiadau cawsom ar ein taith i Ferlin y flwyddyn ddiwethaf. Felly es i, Emily-Haf James a Niamh Davies ar fore Dydd Mercher 17eg o Ionawr i'r Ganolfan i rannu ein hanes. Roedd y Criw Ffotograffiaeth sy'n derbyn gwersi yn y ganolfan yn awyddus i glywed am ein taith. Cawsom ni'r cyfle i rannu ein lluniau a'r syniadau tu ôl i'r gwaith. Gan fod y Criw yn mynd ar daith i Ferlin yn ystod y misoedd nesaf roedd pawb am wybod ychydig o hanes y ddinas, adnabod yr adeiladau pwysig a bod yn ymwybodol o'r llefydd o ddiddordeb y gallant gael lluniau llwyddiannus.

Cawsom amser i ddangos ein holl luniau fel grŵp, roedd yr aelodau yn canmol ein gwaith ac roedden yn awyddus i wybod am y technegau rydym yn defnyddio i roi cymorth i ni er mwyn gwella eu lluniau nhw! Roedd yn bleser derbyn canmoliaeth ganddynt, ac roedd yn anrhydedd fod pobl o'r cyhoedd yn gofyn am ein cymorth ni! Gan fod pawb wedi mwynhau'r sesiwn maen nhw wedi gofyn i ni ddod yn ôl ar ôl ein taith i Vienna, sy'n digwydd ym mhen pythefnos. Felly edrychwn ymlaen at rannu ein lluniau newydd o ddinas newydd.

Gan Gwennan Hammett, Blwyddyn 13.

Ysgol Llanhari



Adroddiad arolwg Ysgol Llanhari

Mae adroddiad diweddar gan Estyn lle arolygwyd Ysgol Llanhari o dan Fframwaith Arolygu Newydd Estyn wedi nodi bod Ysgol Llanhari yn darparu cyfleoedd symbyl a diddorol i'w disgyblion i sicrhau eu bod yn datblygu'n ddinasyddion gwaraidd a gwybodus. Dywed yr arolygwyr hefyd bod gan yr ysgol naws Gymreig a chartrefol sy'n cyfrannu at ymdeimlad gryf o gymuned. Dyfarnwyd bod pob un o'r pump maes arolygu yn y Fframwaith Newydd yn dda h.y. mae gan yr ysgol nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau.

Noda'r arolygwyr bod yr ysgol yn cael ei harwain yn yn fedrus gan y Pennaeth a'r uwch dîm arwain ac mae'r staff yn cyd-weithio'n agos fel tîm. Mae gan y Pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel ac fe rennir y weledigaeth hon yn llwyddiannus gan ddisgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r adroddiad ei hun yn cydnabod bod yr arweinyddiaeth gref hon wedi sicrhau gwelliant o ran safonau ac mae ansawdd yr addysgu yn gyson o safon uchel.

Mae disgyblion Llanhari yn gryf eu cymhelliant ac yn gweithio'n gynhyrchiol yn annibynnol a chyda'u cyfoedion. Nodir eu bod yn chwarae rôl lawn mewn creu ymdeimlad cryf o gymuned yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol, gofalgarg a Chymreig. Mae'r adroddiad yn canmol y berthynas waith dda iawn sy'n bodoli rhwng y staff a disgyblion ac yn cydnabod bod gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad a chyflawniad y disgyblion. Mae athrawon Llanhari yn arddangos brwdfrydedd heintus, ac yn cynllunio tasgau uchelgeisiol a symbyl i annog y



disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae enghreifftau o addysgu ysbrydoledig a gwersi sy'n cynnwys profiadau dychmygus i'r disgyblion, sydd yn datblygu'u medrau ac yn ennyn eu chwilfrydedd.

Mae'r arolygwyr yn cydnabod bod Ysgol Llanhari yn Ysgol Arloesol ar gyfer cwricwlwm newydd Dyfodol Llwyddiannus ac fe geir canmoliaeth i'r ymagwedd flaengar ac arbrofol sydd gan yr ysgol o ran datblygu'r cwricwlwm i roi profiadau symbyl i'r disgyblion. Canmolir hefyd y ffaith bod cyfleon gwerthfawr y tu allan i'r dosbarth yn cyfoethogi profiad addysgol y disgyblion.

Rydym i gyd yn Llanhari yn falch iawn o'n llwyddiannau diweddar fel un o ysgolion 3-19 oed cyntaf Cymru ac yn hynod o falch bod arolygwyr Estyn wedi cydnabod hyn wrth ymweld â'r ysgol.





Eich Gwerthwyr Tai Lleol

Byddwch ar flaen y gad!



Ydych chi'n ystyried symud yn y flwyddyn newydd? Cysylltwch gyda ni NAWR!

Gallwn baratoi popeth a dechrau'r marchnata dros yr Ŵyl, yn barod i symud yn y flwyddyn newydd.



MOVE2HERE
029 2002 6213
MOVE2HERE.CO.UK

info@move2here.co.uk
move2here.co.uk
02920026213

Move2here Limited, The Old Tea Rooms, Acapella Studio, (Opposite the Lewis Arms) Heol Y Goch, Penryn, Cardiff, CF15 9QD
RENT SMART WALES Licence Number: RLR-75016-17052
Company Registration Number: 9522707

Ysgol Tonyrefail (Tudalen 12)



Cast Pantolig



Tîm Rygbi'r Ysgol



Blw 6 wedi'i gwisgo fel efaciwis



Canu Carolau



Ionawr Iachus



'Y Calendr Adfent'

Ionawr sych i Glwb Rygbi Pontypridd

Mae Clwb Rygbi Pontypridd wedi cymryd hoe estynedig yn ystod mis Ionawr, a hynny oherwydd strwythur y tymor, ac yn anffodus hefyd oherwydd methiant y clwb i fwrw 'mlaen yng nghystadleuaeth y Cwpan Cenedlaethol. Gan fod Undeb Rygbi Cymru wedi deddfu na all clybiau'r Uwchadran chwarae gemau ar benwythnosau pan fo rowndiau Cwpan Prydain ac Iwerddon yn cael eu chwarae, gyda thimau rhanbarthol yn cystadlu, bu toriad o dair wythnos i Gynghrair y Principality.

Ar benwythnos cynta'r flwyddyn newydd chwaraewyd rownd gyntaf y Cwpan Cenedlaethol, gyda Ponty yn wynebu taith heriol i wynebu Cross Keys.

Ar faes trwm mewn amodau gwlyb methu fu hanes Pontypridd wrth geisio dal at eu mantais ar ôl mynd ar y blaen yn erbyn y Keys. Tarodd y tîm cartref yn ôl yn hwyr yn y gêm i hawlio buddugoliaeth o 21pt i 16.

Profiad anghyfarwydd a siom enfawr i Ponty oedd colli yn rownd gyntaf y cwpan, y tro cyntaf i'r clwb fethu cyrraedd o leiaf y rownd gynderfynol ers 2008, ac wedi cyrraedd y rownd derfynol ddeuddeg gwaith, ac ennill y gwpan chwe' gwaith.



Yn y baw a'r llaca - colled yn erbyn y Keys

Ionawr sych oedd hi felly i Bontypridd heb ddim gemau i'w chwarae, ond gan roi cyfle i'r garfan dynnu at ei gilydd ar y maes ymarfer, a rhoi cyfle i nifer o chwaraewyr blaenllaw wella o'u hanafiadau.

Bydd y tymor cystadleuol yn ail gychwyn i Bontypridd wrth i Lanelli ymweld â Heol Sardis ar nos Wener yr 2il o Chwefror, gyda gemau pwysig i ddilyn oddi cartref yn erbyn Glyn Ebwy ac yna'r tîm sydd ar frig y tabl, Merthyr. Mae pob gem o bwys yn awr wedi i'r Uwchadran gyfuno i gynghrair llawn o un-clwb-ar-bymtheg, ar ôl cael ei rhannu i ddwy isadran, dwyrain a gorllewin, yn gynharach yn y tymor.

I ddilyn holl hynt a hanes CR Pontypridd, galwch mewn i'r wefan: www.ponty.net - mae croeso i bawb!

Cymru yng Nghwpan y Byd 1950 - 1974

Dyma lyfr cynhwysfawr gan Huw Portway, golygwyd gan Lloyd Evans, fydd yn agoriad llygad i unrhyw un a chanddo ddiddordeb yn anturiaethau cynnar pêl-droedwyr Cymru yng Nghwpan y Byd. Mae'r llyfr, ar gyfer Kindle, ar gael am £3.49 ar wefan Amazon.

Mae'n cwmpasu holl yrfaeodd rhyngwladol enwogion fel John Charles, Ivor Allchurch a Jack Kelsey a'u huchafbwynt dan reolaeth Jimmy Murphy yn rowndiau terfynol y gystadleuaeth yn Sweden ym 1958; siom y 1960au pan gloffodd y crysau cochion yn wyneb gelyniaeth agored rhai o glybiau mwyaf Lloegr; a gwreichion cyntaf yr adfywiad a geid yn ail hanner y 1970au wrth i sêr newydd fel Terry Yorath, John Mahoney, John Toshack a Leighton James ddod i'r amlwg. Dyma'r gyfrol Gymraeg gyntaf i ymdrin yn fanwl â phob gêm Cymru yng Nghwpan y Byd tan 1974, o ymweliad Lloegr â Pharc Ninian ym mis Hydref 1949 i dranc dadleuol y tîm yng Ngwlad Pwyl 24 o flynyddoedd yn ddiweddarach.

Rhoddir yr holl elw sy'n deillio o'r llyfr hwn i Fenter Iaith Bro Ogrw.



Theatr
Genedlaethol
Cymru

Canolfan Garth Olwg,
Pentre'r Eglwys
16 Mawrth 13:00 + 19:30

www.gartholwg.org
01443 570 075

Y TAD

gan

Florian Zeller

Trosiad Cymraeg gan
Geraint Løvgreen

Theatr Genedlaethol Cymru mewn cydweithrediad â Pontio

#YTad



@TheatrGenCymru

theatr.cymru



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Mynediad i'r di-Gymraeg drwy
gyfrwng ap Sibrwd.

Rhif cofrestru cwmni: 4784488. Rhif elusen gofrestrig: 1106032